# Y Pwyllgor Archwilio

## Cofnodion (AC(2)-07-05)

### Dyddiad y cyfarfod: Dydd Iau 14 Gorffennaf 2005

### Amser y cyfarfod: 9.30am – 12.17pm

### Lleoliad y cyfarfod: Ystafelloedd Pwyllgora 3 a 4

#### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

| **Aelod Cynulliad** | **Etholaeth** |
|---|---|
| Janet Davies (Cadeirydd) | Gorllewin De Cymru |
| Mick Bates | Sir Drefaldwyn |
| Jeff Cuthbert | Caerffili |
| Jocelyn Davies | Dwyrain De Cymru |
| Mark Isherwood | Gogledd Cymru |
| Irene James | Islwyn |
| Denise Idris Jones | Conwy |
| Catherine Thomas | Llanelli |
| Carl Sargeant | Alun a Glannau Dyfrdwy |

#### Eraill yn bresennol

| **Enw** | **Yn cynrychioli** | **Eitem(au)** |
|---|---|---|
| Syr Jon Shortridge | Ysgrifennydd Parhaol Cynulliad Cenedlaethol Cymru | 1 a 2 |

| | | |
|---|---|---|
| Mr Peter Jones | Pennaeth Cangen Cyfrifyddu a Chynghori'r Cynulliad | 1 |
| Dr Emyr Roberts | Prif Weithredwr Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru | 1 a 2 |

## Swyddogion yn bresennol

| Enw | Teitl swydd |
|---|---|
| Jeremy Colman | Archwilydd Cyffredinol Cymru |
| Martin Peters | Swyddfa Archwilio Cymru |
| Gillian Body | Swyddfa Archwilio Cymru |
| James Verity | Swyddfa Archwilio Cymru |
| Mike Usher | Swyddfa Archwilio Cymru |
| Ian Summers<br><br>Jeanette Sweet<br><br>Rob Powell<br><br>Justine Morgan<br><br>Jeremy Morgan<br><br>Geraint Morgan<br><br>Helen Lansdowne | Swyddfa Archwilio Cymru<br><br>Swyddfa Archwilio Cymru<br><br>Swyddfa Archwilio Cymru<br><br>Swyddfa Archwilio Cymru<br><br>Swyddfa Archwilio Cymru<br><br>Swyddfa Archwilio Cymru<br><br>Swyddfa Archwilio Cymru |
| Ian Gibson<br><br>David Powell<br><br>Sarah Rees | Swyddfa Cydymffurfio'r Cynulliad<br><br>Swyddfa Cydymffurfio'r Cynulliad<br><br>Swyddfa Cydymffurfio'r Cynulliad |

## Gwasanaeth y Pwyllgorau

| **Enw** | **Teitl swydd** |
|---|---|
| Kathryn Jenkins | Clerc y Pwyllgor |
| Ruth Hatton | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

### Eitem 1: Cyflwyniad, Ymddiheuriadau, Dirprwyon a Datgan Buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd Aelodau'r Pwyllgor a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

1.2 Nododd y Cadeirydd fod Alun Cairns wedi ymddiheuro.

### Eitem 2: Adroddiad Cyffredinol Archwilydd Cyffredinol Cymru 2005<br>Papur: AC(2) 07-05(p1)

2.2 Casglodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Syr Jon Shortridge, Ysgrifennydd Parhaol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Mr Peter Jones, Pennaeth Cyfrifyddu a Chynghori'r Cynulliad a Dr Emyr Roberts, Prif Weithredwr Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru.

Camau i'w Cymryd:

Syr Jon Shortridge i ddarparu:

- nodyn ar baratoi cyfrifon Ombwdsman Gweinyddu Cymru a Chomisiynydd Gwasanaeth Iechyd Cymru a gaiff eu paratoi gan Swyddfa'r Ombwdsman Seneddol a Gwasanaeth Iechyd, gan gynnwys (i) yr anawsterau a gafwyd y llynedd wrth newid i'r fformat electronig gofynnol a (ii) cyfrifoldebau;

- nodyn ar allu proffesiynol cyrff cyhoeddus yng Nghymru o ran swyddogion caffael i ymgymryd â gwelliannau sy'n rhoi gwerth am arian ac sy'n ofynnol o dan Creu'r Cysylltiadau;

- nodyn ar y gwersi a ddysgwyd yn sgil y rhaglen o wiriadau ffitrwydd caffael a gynhaliwyd yn CCNC Cymru, gan gynnwys gwybodaeth am natur y gwiriadau; a

- nodyn ar sut y mae Llywodraeth y Cynulliad yn delio â'r tensiynau rhwng cefnogi cyflenwyr lleol ac arbed arian drwy wella gweithdrefnau caffael.

### Eitem 3: Antur Dwyryd Llyn<br>Papur: AC(2) 07-05(p2)

3.1 Casglodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Syr Jon Shortridge, Ysgrifennydd Parhaol Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Dr Emyr Roberts, Prif Weithredwr Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru.

3.2 Datganodd Mick Bates fuddiant gan ei fod wedi gwneud cais am gyllid Ewropeaidd

**Eitem 4: Archwilio'r Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad**
**Papur: AC(2) 07-05(p.3)**

4.1 Dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol y byddai'r Pwyllgor yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am hynt y gwaith pan fyddai hynny'n briodol.

**Eitem 5: Yr wybodaeth ddiweddaraf am TB mewn Gwartheg**
**Papur: AC(2) 07-05(p4)**

5.1 Nododd y pwyllgor y papur

**Eitem 6: Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i Adroddiad y Pwyllgor Archwilio, Amseroedd Aros y GIG yng Nghymru**
**Papur: AC(2) 07-05(p5 a p6)**

6.1 Dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol nad oedd y crynodeb o ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru yn adlewyrchu ei fanylder, ac amser a ddengys a gaiff y dulliau priodol a amlinellwyd eu gweithredu. Byddai'r Archwilydd cyffredinol yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am hynt ei argymhellion pan fyddai hynny'n briodol.

**Eitem 7: Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i Adroddiad y Comisiwn Archwilio, Caffael yn y Sector Addysg Uwch**
**Papur: AC(2) 07-05(p7 a p8)**

7.1 Nododd a chytunodd y Pwyllgor ar ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru a chyngor yr Archwilydd Cyffredinol

**Eitem 8: Cofnodion y cyfarfod blaenorol**
**Papur: AC(2) 06-05(mins)**

8.1 Cymeradwyodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Mehefin 2005.

8.2 Dywedodd y Cadeirydd wrth y Pwyllgor iddi dderbyn eglurhad pellach gan y Llywodraeth ynghylch ei hymateb i adroddiad y pwyllgor: Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru: Rheoleiddio Rheoli Gwastraff, a fyddai'n cael ei ddosbarthu i'r Aelodau a'i drafod yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor ac a fyddai'n amodol ar gyngor yr Archwilydd Cyffredinol.